

PS02/25

Crynodeb gweithredol yn Gymraeg:

Sylweddau seicedelig a chysylltiedig at ddefnydd meddygol gan gynnwys seicotherapi

Medi 2025

DATGANIAD SEFYLLFA

Awduron

- Yr Athro Michael A P Bloomfield
- Yr Athro Samuel R Chamberlain
- Yr Athro Belinda Lennox
- Alara Egelli
- Dr Paul Jung
- Ava Mason
- Ryan Turner
- Dr Sabrina Alam
- Dr Simon Heyland
- Dr Frederico Magalhães
- Dr Sarah Markham
- Dr Jonny Martell
- Dr Roberta Murphy
- Dr Jo O'Reilly
- Yr Athro Oliver D Howes

Sut i ddyfynnu'r cyhoeddiad hwn:

Coleg Brenhinol y Seiciatryddion (2025) Crynodeb gweithredol yn Gymraeg o ddatganiad sefyllfa Coleg PS02/25: Sylweddau seicedelig a chysylltiedig at ddefnydd meddygol gan gynnwys seicotherapi

© 2025 Coleg Brenhinol y Seiciatryddion

Mae adroddiadau'r coleg a datganiadau sefyllfa yn ffurfio polisi'r Coleg ac maent wedi'u cymeradwyo gan y Coleg trwy'r Pwyllgor Polisi a Materion Cyhoeddus (PPAC).

Mae Coleg Brenhinol y Seiciatryddion yn elusen gofrestredig yng Nghymru a Lloegr (228636) ac yn yr Alban (SC038369).

Crynodeb gweithredol

Mae'r term 'seicedelig' wedi'i gymhwyso i ystod o gyfansoddion ffarmacolegol a phenomenolegol amrywiol gan gynnwys y rhithbeiriau serotonergig, cetamin a methylenedioxymethamffetamin (MDMA). Bu diddordeb mawr yn y defnydd o'r cyfansoddion hyn i drin ystod o gyflyrau iechyd meddwl, yn eu rhinwedd eu hunain ac yng nghyd-destun seicotherapi â chymorth ffarmacolegol, lle cânt eu rhagnodi gyda'r bwriad o hwyluso newid seicolegol. O'r rhain, cetamin, a'i S-entantiomer, 'esketamine', sydd wedi bod y rhai a astudiwyd fwyaf wrth leddfu symptomau iselder yn gyflym gyda thystiolaeth o effeithiolrwydd gan gynnwys hap-dreialon rheoledig mawr.

Serch hynny, cyfyngedig yw'r dystiolaeth o ansawdd uchel ar hyn o bryd ar gyfer effeithiolrwydd y cyfansoddion hyn. Er bod canlyniadau astudiaethau clinigol cynnar o'r cyffuriau di-ketamine hyd yma wedi bod yn galonogol, mae pryder ynghylch yr anawsterau wrth gynnal treialon sydd wedi'u dallu'n ddigonol, yn ogystal ag ynghylch sgîl-effeithiau ac a yw unrhyw fuddion therapiwtig a welwyd yn cael eu cynnal dros amser. Mae'r ffactorau hyn, ynghyd â chwestiynau ynghylch dilysrwydd ymhlith poblogaethau clinigol, yn golygu bod y sylfaen dystiolaeth bresennol yn gyfyngedig, ac ni argymhellir eu defnyddio mewn ymarfer clinigol arferol ac eithrio lle maent wedi'u trwyddedu. Mae angen gwerthusiad pellach o ddefnyddioldeb clinigol y meddyginiaethau posibl hyn, gan gynnwys mewn seicotherapi â chymorth ffarmacolegol, yn ogystal ag ymchwil i'w heffeithiau andwyol hirdymor posibl a'u diogelwch. Dylai seiciatryddion fod yn rhan o'r defnydd therapiwtig o'r cyfansoddion hyn yn y dyfodol os a phan fyddant wedi'u trwyddedu ac fel rhan o arweinyddiaeth glinigol tîm aml-ddisgyblaethol, a rhaid i unrhyw un sy'n eu rhoi a/neu'n cynnal unrhyw fath o seicotherapi o dan eu heffeithiau seicoweithredol fod yn glinigwr cofrestredig cymwys sydd wedi'i hyfforddi'n briodol.

Mae'r papur hwn yn cyfeirio at ddefnydd therapiwtig mewn lleoliadau clinigol ac ymchwil ac nid defnydd anghyfreithlon neu hamdden o'r cyffuriau hyn. Heblaw am ketamine ac esketamine, nid yw'r triniaethau hyn ar gael ar hyn o bryd yn y DU ar sail gyfreithiol y tu allan i dreialon ymchwil clinigol.